Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



# Cynllun busnes 2023

# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023 er mwyn cynorthwyo ein strategaeth gorfforaethol

Ein gweledigaeth yw bod yn rheolydd effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr meddygol proffesiynol. Ein rôl graidd yw darparu gwasanaeth rheoleiddio hyblyg ac ymatebol sy'n diogelu cleifion, sy'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd, ac sy'n bodloni anghenion system iechyd y DU. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn:

- gosod y safonau ar gyfer arfer meddygol
- cofrestru ac yn ail-ddilysu ein gweithwyr meddygol proffesiynol
- hyrwyddo safonau uchel ar gyfer addysg feddygol
- ymchwilio i bryderon a gweithredu arnynt.

O ystyried yr ansicrwydd a'r sialensiau y mae'r system gofal iechyd a'r proffesiwn meddygol yn eu hwynebu, nas gwelwyd eu tebyg erioed o'r blaen, byddwn yn parhau i:

- wrando ar brofiadau ac anghenion cleifion, y cyhoedd, a'r proffesiwn er mwyn cyfrannu at ein blaenoriaethau
- defnyddio tystiolaeth a data er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni rhan mor fawr ag y bo modd wrth ymateb i'r sialensiau hynny.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ymwreiddio nifer o'r newidiadau cadarnhaol a ddaeth o'r pandemig i mewn i'n ffyrdd o weithio. Wrth i'r llywodraeth ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r ffordd yr ydym yn gweithio, rydym yn wynebu cyfle arwyddocaol i ailgynllunio ein prosesau a'n dull gweithredu rheoliadol. I fodloni'r sialensiau hyn a chynyddu effaith ein gwaith gymaint ag y bo modd, byddwn yn targedu ein hadnoddau ar lai o weithgareddau a blaenoriaethau strategol.



# Cyflawni ein swyddogaethau statudol

## Rheoleiddio effeithlon ac effeithiol

**Yn 2023, rydym yn disgwyl:**

- prosesu tua **46,000** o argymhellion ail-ddilysu ar gyfer meddygon
- cynorthwyo tua **26,500** o ymgeiswyr tro cyntaf cymwys i ymuno â chofrestr y DU (gan gynnwys 18,500 o geisiadau gan raddedigion meddygol rhyngwladol ac 8,000 o geisiadau gan raddedigion meddygol yn y DU)
- brysbennu cwynion tua **9,000** o feddygon a chynnal ymchwiliad am tua **1,500** o feddygon
- cymryd camau pellach er mwyn ymateb i bryderon ar ffurf rhedeg tua **315** o wrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol
- ymweld ag **11** o ysgolion meddygol newydd a defnyddio ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol i adolygu **15** o sefydliadau hyfforddiant ôl-raddedig a **36** o ysgolion meddygol sefydledig (gweler ein hadroddiadau yma)
- ymateb i tua **450** o ymholiadau moesegol mewn perthynas â'n safonau ar gyfer meddygon
- cynnal dros **1,000** o ddigwyddiadau, gan ymgysylltu gyda dros **45,000** o feddygon a myfyrwyr
- cynnal dros **150** o ddigwyddiadau Croeso i arfer yn y DU a thrwy wneud hynny, cynorthwyo dros 8,000 o raddedigion meddygol rhyngwladol y mae gweithio yn y DU yn brofiad newydd iddynt
- troi at **64,000** o hyfforddeion a **53,000** o hyfforddwyr er mwyn deall eu safbwyntiau ynghylch hyfforddiant, ac ynghylch ansawdd addysg feddygol ôl-raddedig trwy gyfrwng ein harolwg hyfforddiant cenedlaethol (NTS)
- troi at **3,500** o feddygon i gyfrannu at arolwg baromedr *Cyflwr addysg ac arfer meddygol* (SoMEP).

# Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig

## Rheoleiddio proffesiynau cymdeithion meddygol (MAPs)

Rydym yn cynllunio fframwaith rheoliadol ar gyfer cymdeithion meddygol (CMion) a chymdeithion anesthesia (CAion) a fydd yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol hyn i wneud cyfraniad estynedig i ofal iechyd, codi safonau arfer, a chadw cleifion yn ddiogel. Ac rydym yn paratoi ar gyfer goblygiadau ehangach bod yn rheolydd nifer o wahanol weithwyr proffesiynol.

Noddwr: Una Lane

## Diwygio Rheoleiddio

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddiwygio ein deddfwriaeth. Bydd hyn yn gofyn i ni weithredu fframwaith cyfreithiol, rheolau, polisïau a phrosesau newydd ar draws ein holl swyddogaethau rheoliadol. Bydd diwygio rheoleiddio yn newid y ffordd yr ydym yn rheoleiddio, gan roi mwy o hyblygrwydd i ni osod ein rheolau ein hunain, a newid y ffordd yr ydym yn gweithio yn y dyfodol pan fydd tystiolaeth yn awgrymu bod modd gwneud gwelliannau. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn fwy cefnogol, cynhwysol a thosturiol yn y ffordd yr ydym yn rheoleiddio ac yn darparu mwy o gysondeb rhyngom ni, a rheoleiddwyr eraill.

Noddwr: Shaun Gallagher

## Newid i Safonau'r Gymraeg

Rydym yn paratoi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a fydd yn dod i rym ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd, sy'n rhan bwysig o strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn gyfle i wella ein cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sy'n manteisio ar ein gwasanaethau. Rydym yn trefnu gweithgareddau i weithredu'r safonau ar draws holl swyddogaethau CMC.

Noddwr: Paul Reynolds

# Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy

## Ehangu ein llwybrau cofrestru

Rydym yn ehangu ein llwybrau cofrestru er mwyn ymateb i'r galw cynyddol gan feddygon tramor a'r pwysau ar y gweithlu yn ein gwasanaeth iechyd. Rydym yn diweddaru llwybrau presennol ac yn datblygu rhai newydd, gan weithredu cytundebau masnach ryngwladol, ac ymateb i unrhyw newidiadau i'r trefniadau digyfnewid yn dilyn Brexit. Bydd hyn sicrhau ein bod yn gallu cofrestru gweithwyr proffesiynol medrus fel bod mwy o feddygon yn gallu gweithio yn y DU.

Noddwr: Una Lane

## Cyflwyno Asesiad Trwyddedu Meddygol

Rydym yn cyflwyno asesiad newydd a gaiff ei ymwreiddio yn yr arholiadau terfynol ar gyfer graddedigion yn y DU ac a ddarparir gennym ni ar gyfer graddedigion meddygol rhyngwladol. Bydd yr asesiad yn gwella cysondeb o ran lefelau y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad craidd sy'n ofynnol gan feddygon sy'n ymarfer yn y DU.

Noddwr: Colin Melville

# Buddsoddi yn ein pobl i wireddu ein huchelgais

## Parhau i ddenu a chadw talent

Rydym yn ehangu amrywiaeth ein pobl ac yn targedu'r rhwystrau y mae rhai cydweithwyr yn eu hwynebu wrth iddynt geisio camu ymlaen yn eu gyrfa, fel y gallwn gael amgylchedd gwaith mwy cynhwysol. Rydym yn gweithio i geisio sicrhau achrediad Aur dan Fuddsoddwyr mewn Pobl (BmP) hefyd.

Noddwr: Neil Roberts

# Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel

## Canlyniadau rheoleiddio tecach

Mae gennym ddau brosiect er mwyn ein helpu i ganolbwyntio ar sicrhau bod tegwch yn rhan ganolog o'n gwaith:

- gwaredu gwahaniaethau mewn cyfeirebau cyflogwyr addasrwydd i ymarfer

Noddwr: Anthony Omo

- gwaredu gwahaniaethu, anfantais, ac annhegwch ar gyfer holl fesurau mynegai llwybrau addysg a hyfforddiant meddygol teg erbyn 2031.

Noddwr: Colin Melville

## Adolygiad o Arfer Meddygol Da

Byddwn yn sicrhau bod ein safonau ar gyfer y proffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio yn adlewyrchu disgwyliadau presennol cleifion a'r cyhoedd. Byddwn yn sicrhau bod ein canllawiau i'n proffesiwn mor berthnasol ag y bo modd, gan optimeiddio'r ffordd y mae'n berthnasol i ofal.

Noddwr: Colin Melville

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: 0161 923 6602

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun

---

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn iaith neu ffurf arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu anfonwch e-bost atom, **publications@gmc-uk.org**.

---

## Ymunwch â'r sgwrs

@gmcuk

facebook.com/gmcuk

linkd.in/gmcuk

youtube.com/gmcuktv

Cyhoeddwyd Chwefror 2023

© 2023 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/BPW23/0223